Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Rhuthun, nos Lun, 17 Rhagfyr 2018, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Lewney (Maer), Gavin Harris (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.

147. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Jabez Oakes.

148. CYFLWYNIAD GAN HEDDLU RHUTHUN

Croesawyd y Sarjant Martin Jones i'r cyfarfod gan y Maer. Roedd wedi cyflwyno adroddiad i'r Cynghorwyr ar y gwaith sy'n digwydd yn ardal Rhuthun. Hysbysodd yr aelodau bod y Cwnstabl Llinos Ford wedi ei phenodi'n Swyddog Cyswllt Ysgolion yn awr a bod Cwnstabl Heledd Wynne-Evans gyda'r tîm troseddau gwledig, ac yn gweithio ar adfywio'r cynllun Gwarchod Ffermydd yn yr ardal. Holodd yr aelodau am achosion o ddwyn o dai yn Rhuthun ac yfed yn nrysau adeiladau yn y dref.

149. DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaeth y Cynghorydd Emrys Wynne ddatgan budd personol yn eitemau 8 a 18 fel aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych.

150. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn.

22.11 Bore Gyrfaoedd Ysgol Borthyn
01.12 Goleuo'r goleuadau ar y goeden Nadolig yn Sgwâr Sant Pedr
04.12 Noson gymdeithasol y Nadolig Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch
06.12 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
07.12 Gŵyl Coed Nadolig yn Eglwys Sant Pedr a Gwasanaeth Goleuo Bywyd Hosbis Sant Cyndeyrn
11.12 Ymweld â ffreutur newydd Ysgol Rhuthun
13.12 Gwasanaeth Carolau Ysgol Rhuthun yn Eglwys Sant Pedr
14.12 Rhannu cysuron y Nadolig i drigolion cartrefi preswyl Rhuthun
15.12 Gwasanaeth 9 Llith a Charolau yn Eglwys Sant Pedr

151. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Gavin Harris (Dirprwy Faer)	Cyfarfod Is-bwyllgor Staffio, cyfarfod gydag Ymddiriedolaeth Castell Rhuthun ynghylch llwybrau i gysylltu'r mannau gwyrdd o gwmpas y Castell, cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys, Gwasanaeth Carolau Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych yn yr Eglwys Gadeiriol, Llanelwy a sesiwn Tîm Tref Taclus.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Gŵyl Coed Nadolig yn Eglwys Sant Pedr a Gwasanaeth Goleuo Bywyd Hosbis Sant Cyndeyrn, Ffair Nadolig Awelon a Sioe Nadolig Ysgol Borthyn.
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio a'r ŵyl Coed Nadolig yn Eglwys Sant Pedr a Gwasanaeth Goleuo Bywyd Hosbis Sant Cyndeyrn.
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfod Pwyllgor Rheoli Awelon, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio, goleuo'r goleuadau ar y goeden Nadolig yn Sgwâr Sant Pedr a chyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun.
Cyng. Ken Hawkins	Panel Archwilio Safle Cyngor Sir Ddinbych yn ymweld â safle 48 Bryn Rhydd, Rhuthun.
Cyng. Menna Jones	Casglu bwyd efo'r Banc Bwyd yn Tesco, Ffair Nadolig Ysgol Pen Barras

	a goleuo'r goleuadau ar y goeden Nadolig yn Sgwâr Sant Pedr, Ffair Nadolig Llys Marchan, Gŵyl Coed Nadolig yn Eglwys Sant Pedr, brecwast efo Siôn Corn yn Awelon a pharatoi bocsys ar gyfer hamperi Nadolig gyda'r Banc Bwyd.
Cyng. Jabez Oakes	Goleuo'r goleuadau ar y goeden Nadolig yn Sgwâr Sant Pedr.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Tair sesiwn Banc Bwyd a chasglu bwyd yn Tesco, Rhuthun – casglwyd 801.1 cilo o fwyd, cyfarfod rheoli perfformiad Pennaeth Ysgol Pen Barras gyda GwE, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio a pharatoi hamperi Nadolig y Banc Bwyd – 93 ohonynt.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Ymlaen Rhuthun ynghylch dathliadau'r Nadolig, bore gyrfaoedd Ysgol Borthyn, cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys, marchnad Nadolig a goleuo'r goleuadau ar y goeden Nadolig yn Sgwâr Sant Pedr, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio, noson gymdeithasol y Nadolig Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, cyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch a'r ŵyl Coed Nadolig yn Eglwys Sant Pedr.
Cyng. Dave Snape	Goleuo'r goleuadau ar y goeden Nadolig yn Sgwâr Sant Pedr.
Cyng. Heather Williams	Cyfarfod Pwyllgor Rheoli Awelon.
Cyng. Ifan Wyn	Goleuo'r goleuadau ar y goeden Nadolig yn Sgwâr Sant Pedr.
Cyng. Emrys Wynne	Cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio.

152. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2018 yn gywir.*

153. MATERION YN CODI

Cyfeiriodd y Clerc ar lythyr o ddiolch gan Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych am y cyfraniad ariannol o £2,000.00 i swyddfa CAB Rhuthun. Cadarnhaodd y Dirprwy Faer bod adroddiad Dyfodol Rhuthun 2 bellach yn cynnwys y geiriad Gweledigaeth ar gyfer Dyfodol Rhuthun.

154. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Tynnodd Gadeirydd y pwyllgor sylw at eitemau yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2018.*

155. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Tynnodd Gadeirydd y pwyllgor sylw at eitemau yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2018.*

156. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – RASUS MULOD CLWB ROTARI RHUTHUN

Bu'r aelodau'n ystyried y wybodaeth bellach a ddarparwyd gan Glwb Rotari Rhuthun, yn unol â'r cais yn dilyn y cyfarfod blaenorol. Cynigiwyd ac eiliwyd roi £300.00 tuag at y digwyddiad hwn.

PENDERFYNWYD*: rhoi £300.00 o gymorth ariannol i Glwb Rotari Rhuthun tuag at y digwyddiad Rasus Mulod.*

157. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cynrychiolydd y Cyngor Tref ar Bwyllgor Elusennau Rhuthun, yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Rosie Hughes. Roedd y Cynghorydd John Wynne Hughes wedi mynegi diddordeb mewn bod yn aelod o'r pwyllgor hwn.

PENDERFYNWYD*: bod y Cynghorydd John Wynne Hughes yn cynrychioli Cyngor Tref Rhuthun ar Bwyllgor Elusennau Rhuthun.*

158. GWEITHGORAU CYFREDOL

Dosbarthwyd rhestr yn nodi aelodaeth y gweithgorau cyfredol, sef Gweithgor yr Hen Lys a'r

Gweithgor Cynllunio ar gyfer Argyfwng. Gwnaed cais i ffurfioli gweithgor Dyfodol Rhuthun 2 hefyd.
PENDERFYNWYD*: nodi'r wybodaeth.*

159. NEUADD Y DREF RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cynrychiolwyr Cyngor Tref Rhuthun ar weithgor Neuadd y Dref. Mynegodd yr aelodau eu barn y dylai'r gweithgor hwn gynnwys swyddogion Cyngor Sir Ddinbych ac y dylid gwahodd y Cynghorwyr sir yn cynrychioli ward Rhuthun i'r cyfarfodydd hefyd. Yr enwau a awgrymwyd i gynrychioli'r Cyngor Tref oedd y Cynghorwyr Heather Williams, Menna Jones, Ken Hawkins, Jim Bryan and John Wynne Hughes.
PENDERFYNWYD*: cysylltu gyda swyddogion Cyngor sir Ddinbych i drefnu cyfarfod gweithgor Neuadd y Dref.*

160. STRATEGAETH GYFATHREBU CYNGOR TREF RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sefydlu gweithgor i lunio Strategaeth Gyfathrebu a Chynllun Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Cyngor Tref Rhuthun. Awgrymwyd gwneud ymchwil i weld beth yw cynnwys strategaethau sefydliadau eraill, ac y dylai'r Cyngor Tref gael ei dudalen Gweplyfr ei hun i rannu gwybodaeth yn unig, a dim sylwadau. Cynigiodd y Maer fod yn aelod o'r gweithgor, a gwirfoddolodd y Cynghorwyr Dave Snape, John Wynne Hughes ac Ifan Wyn hefyd. Awgrymwyd y dylai Clerc y Dref fod yn aelod o'r gweithgor hefyd.
PENDERFYNWYD*: sefydlu Gweithgor Strategaeth Gyfathrebu yn cynnwys y Maer, y Cynghorwyr Dave Snape, John Wynne Hughes ac Ifan Wyn ynghyd â Chlerc y Dref, a thrafod dyddiad y cyfarfod cyntaf yn dilyn cyfarfod y Cyngor.*

161. ADNEWYDDU AELODAETH SLCC

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adnewyddu aelodaeth Cyngor Tref Rhuthun gyda'r SLCC am 2019 ar gyfradd o £175.00. Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd ar hyn yn unfrydol.
PENDERFYNWYD*: adnewyddu aelodaeth SLCC Cyngor Tref Rhuthun yn 2019 ar gost o £175.00.*

162. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Tachwedd 2018.
PENDERFYNWYD: *derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Tachwedd 2018.*

163. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

100084	Viking	Papur A4, 100 o stampiau ail ddosbarth a thâp selo	*	£120.96
100085	Fineline	Lamineiddio a nwyddau swyddfa	*	£14.70
100086	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£295.55
100087	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd	*	£180.00
100088	Cyngor Sir Ddinbych	Swm blaendal ar gyfer yr Hen Lys		£12,000.00
100089	Cyngor Sir Ddinbych	Swm ar gyfer alldaliadau a chwiliadau yng nghyswllt yr Hen Lys		£250.00
100090	Fineline	Cardiau Nadolig y Maer	*	£139.28
100091	Pete Owens	Hawlfraint delwedd cerdyn Nadolig y Maer		£50.00
100092	Sandra Williams	Cysuron y Nadolig y Maer – 10 twb Quality Street		£40.00

143. CYFARFOD NESAF CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU

Gwnaed cais am aelod i fynd i gyfarfod nesaf y Gymdeithas uchod yng Ngholeg Llandrillo,

Llandrillo yn Rhos, am 10.30am ddydd Gwener, 18 Ionawr 2019, gan nad oedd y Cynghorydd Keiran Allsopp-Robson yn medru mynd. Cynigiodd y Cynghorydd Jim Bryan fynd i'r cyfarfod.
PENDERFYNWYD: *y byddai'r Cynghorydd Jim Bryan a'r Cynghorydd Steve Beach yn mynd i'r cyfarfod ar ran Cyngor Tref Rhuthun.*

RHAN DAU
Cynigiwyd ac eiliwyd ystyried yr eitemau a ganlyn heb y wasg a'r cyhoedd yn bresennol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt.

165. YR HEN LYS
Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad ynghylch yr Hen Lys. Dylid derbyn y benthyciad gan y Public Works Loan Board ar 24 Rhagfyr, gyda'r nos o gwblhau'r pryniant erbyn 18 Ionawr. Esboniodd y Cynghorydd Gavin Harris ei fod wedi cysylltu gyda phobl leol a oedd yn fodlon rhannu eu harbenigedd o ran adnewyddu'r adeilad, yn cynnwys Graham Holland, pensaer cadwriaethol, Dafydd Evans cyfarwyddwr Kartre, Fiona Gale, archeolegydd a Peter Astbury, cyn glerc gwaith.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad.*

166. COFNODION YR IS-BWYLLGOR STAFFIO
Dosbarthwyd cofnodion yr Is-bwyllgor Staffio a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2018 i'r aelodau. Amlinellwyd cyfrifoldebau'r rôl arfaethedig. Byddai'r Cynghorwyr Anne Roberts ac Emrys Wynne yn cyfarfod i ystyried proffil swydd a disgrifiad swydd y rôl.
PENDERFYNWYD*: derbyn y cofnodion a threfnu cyfarfod arall yr Is-bwyllgor Staffio yn y Flwyddyn Newydd.*

167. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 17 Rhagfyr 2018 am 7.00pm.*